



Gosber ar Gân

Sul y Gwreichion

26 Mawrth 2023 am 3.30pm

Choral Evensong

Passion Sunday

26 March 2023 at 3.30pm




Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



*Croeso i
Gadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor.*

*Welcome to
Saint
Deiniol's
Cathedral in
Bangor.*



Rydych chi'n sefyll rwan
lle safodd Deiniol bron i
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn
525, bu iddo gynnull o'i
gwmpas gymuned lawn
ffydd, gobaith a chariad,
gan godi o'i chwmpas
ffens gyll—y **bangor**
gwreiddiol—iddi'n gysgod
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch
chwithau, hefyd, eich
cofleidio yma gan yr un
ffydd, gobaith a chariad
a gyhoeddir gennym
heddiw ac sy'n ein
cyfareddu o hyd.

You stand now where
Deiniol stood almost a
millennium and a half ago.

Here, in the year 525, he
gathered around him a
community of faith, hope
and love, and raised
around it a hazel fence—
the original **bangor**—for
shelter and sanctuary.

Our prayer is that you,
too, will be embraced
here by the same faith,
hope and love that we
proclaim and live by
today.

Yn y Gosber At Evensong

Mae i oedfa'r Gosber ar Gân wreiddiau dwfn. Mae'n waddol o fuchedd gweddi y mynachlogydd Benedictaidd, lle roedd treigl oriau'r dydd yn esgor ar weddi ar y cyd. Daw'r ffurf a ddefnyddiwn heddiw o Lyfr Gweddi Gyffredin yr unfed ganrif ar bymtheg, lle cyfunwyd dau o'r oedfaon mynachau hynafol i ffurfio oedfa i'w hoffrymu'n blwyfol ar drefyn dydd, ac mewn cadeirlannau ar gân.

Yn ein Gosber, byddwn yn gwranddo ar lithoedd o'r Hen Destament a'r Newydd, ac yn canu'r ddwy gân hwyrol o'r Efyngyl yn ôl Sant Luc – y *Magnificat* (cân am ein hyder yn addewid oesol Duw) a'r *Nunc dimittis* (cân am ein cyflawniad yng ngholeuni oesol Crist). Mae gweddi ar gân ac ar goedd, a sain yr anthem, yn ein dwyn, galon a meddwl, tuag at Dduw.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip gwyrdd**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Fech gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfrio yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo.

Buchedd Bangor yw ein cylchgrawn newydd, gan gynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.

The service of Choral Evensong has deep roots. It is an inheritance from the prayer life of Benedictine monasteries, where the turning of the hours of the day was marked by communal prayer. The service we know today is from the sixteenth-century Book of Common Prayer, in which two of the ancient monastic observances were combined to form a service to mark the end of the day – and “in quires and places where they sing,” to do so chorally.

At Evensong, we listen to lessons from the Old and New Testaments, and sing the two evening songs from the Gospel According to Saint Luke – the *Magnificat* (a song about our confidence in God's enduring promise) and the *Nunc dimittis* (a song of about our fulfilment in Christ enduring light). Sung and spoken prayer, and the music of an anthem, draw us heart and mind to God.

During our worship, we say and sing together the text **in bold type**. We may make a sign of the Cross at times when the words are marked with ✠. Other directions (rubrics) are offered **in green type**; if you find it more comfortable to sit rather than stand or kneel, please do so.

You are invited to take the booklet away with you, to reflect in your own time on the holy words it contains.

Buchedd Bangor is our new magazine, offering a mixture of devotional material and practical knowledge about our life together. Pick up a copy of today, or follow the QR code to read online.



Trefn Order



Codwn ar ein traed ar ganiad y gloch | We stand as the bell is rung



Cynnull Gathering

Deisyfiadau Preces

Ŵ ✕ O lôr, rho i'n gwefus gân.
R̄ Aed yn bêr hyd y nef ein mawl.

Ŵ ✕ O Dduw, cofleidia'n hadfyd.
R̄ O Grist, dy ras yw'n golud.

Ŵ Gogoniant fo i Dduw Dad, ac i Dduw'r Mab,
ac i Dduw'r Ysbryd Glân,
R̄ Fel yr oedd yn y dechreuad, mae'n awr, a'n fythol y bydd;
yn oes oesoedd. Amen.

Ŵ Molwch yr lôr.
R̄ Addolwn ein Duw.

Translation

Ŵ ✕ O Lord, open thou our lips. R̄ And our mouth shall shew forth thy praise. Ŵ ✕ O God, make speed to save us. R̄ O Lord, make haste to help us. Ŵ Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost. R̄ As it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen. Ŵ Praise ye the Lord. R̄ The Lord's name be praised.

Cerddoriaeth | Music
Thomas Ebdon (1738-1811)



Brawddeg **Sentence**

"Anfon dy oleuni a'th wirionedd, bydded iddynt fy arwain."

Translation

"Send out your light and your truth, that they may lead me."

Emyn **Hymn**



Mawl a fo i'r Iesu,
fu mewn dirfawr loes;
rhoddodd Waed ei galon
drosom ar y Groes.

Grace and life eternal
in that Blood I find;
blest be his compassion,
infinitely kind.

Bendith yn dragwyddol
ddaeth trwy Iesu glân;
cadwodd ni rhag myned
oll i uffern dân.

Lift ye then your voices;
swell the mighty flood;
louder still and louder
praise the precious Blood!

Translation over the page

Translation

*Glory be to Jesus, / who, in bitter pains, /
poured for me the life-blood / from his sacred
veins. // Blest through endless ages / be the
precious stream, / which from endless torment /
doth the world redeem.*

Geiriau | Words

Alphonsus Liguori (1696-1787)

Cyfieithiad | Translation

o | from "Hymnau Hen a Newydd" (1868)

Edward Caswall (1814-1878)

Cerddoriaeth | Music | "Caswall"

Friedrich Filitz (1804-1876)

Eisteddwn | We sit

Gair Word

Salmyddiaeth Psalmody

Out of the deep have I called unto thee O Lord: Lord hearken unto my voice.

O let thine ears consider well: the voice of my supplications.

If thou Lord shouldest mark what is done amiss: O Lord who could abide it?

But there is mercy with thee: that so thou mayest be feared.

I wait for the Lord, my soul doth wait for him: and in his word is my trust.

My soul doth wait for the Lord: more than watchmen for the morning, yea more than watchmen for the morning.

O Israel trust in the Lord, for with the Lord there is mercy: and with him is plenteous redemption.

And he shall redeem Israel: from the multitude of his sins.

Codwn ar ein traed | We stand

Glory be to the Father, and to the Son: and to the Holy Ghost;
as it was in the beginning, is now and ever shall be; world
without end. Amen.

Salm | Psalm 130

Cerddoriaeth | Music

Tôn I, wythfed terfyniad | Tone I, eighth ending

Eisteddwn | We sit

Llith Lesson

Yma y mae yn dechrau ail bennod ar bymtheg ar hugain Llyfr y Proffwyd Eseciel.

Yn y dyddiau hynny: Daeth llaw Duw arnaf, ac aeth â mi allan trwy ysbryd Duw a'm gosod yng nghanol dyffryn a oedd yn llawn esgyrn. Aeth â mi'n ôl a blaen o'u hamgylch, a gwelais lawer iawn o esgyrn ar lawr y dyffryn, ac yr oeddent yn sychion iawn. Gofynnodd imi, "Fab dyn, a all yr esgyrn hyn fyw?" Atebais innau, "O Dduw, ti sy'n gwybod." Dywedodd wrthyf, "Proffwyda wrth yr esgyrn hyn a dywed wrthynt, 'Esgyrn sychion, clywch air Duw. Fel hyn y dywed Duw wrth yr esgyrn hyn: Wele, fe roddaf fi anadl ynoch, a byddwch fyw. Rhoddaf ewynnau arnoch, paraf i gnawd ddod arnoch a rhoddaf groen drosoch; rhoddaf anadl ynoch, a byddwch fyw. Yna byddwch yn gwybod mai myfi yw Duw.'" Proffwydais fel y gorchmynnwyd imi. Ac fel yr oeddwn yn proffwydo daeth sŵn, a hefyd gynnwrf, a daeth yr esgyrn ynghyd, asgwrn at asgwrn. Edrychais, ac yr oedd gewynnau arnynt, a chnawd hefyd, ac yr oedd croen drostynt, ond nid oedd anadl ynddynt. Yna dywedodd wrthyf, "Proffwyda wrth yr anadl; proffwyda, fab dyn, a dywed wrth yr anadl, 'Fel hyn y dywed Duw: O anadl, tyrd o'r pedwar gwynt, ac anadla ar y lladdedigion hyn, iddynt fyw.'" Proffwydais fel y gorchmynnwyd imi, a daeth anadl iddynt ac aethant yn fyw, a chodi ar eu traed yn fyddin gref iawn. Yna dywedodd wrthyf, "Fab dyn, holl dŷ Israel yw'r esgyrn hyn. Y maent yn dweud, 'Aeth ein hesgyrn yn sychion, darfu am ein gobaith, ac fe'n torrwyd ymaith.' Felly, proffwyda wrthynt a dywed, 'Fel hyn y dywed Duw: O fy mhobl, yr wyf am agor eich beddau a'ch codi ohonynt, ac fe af â chwi'n ôl i dir Israel.

Yna, byddwch chwi fy mhobl yn gwybod mai myfi yw Duw, pan agoraf eich beddau a'ch codi ohonynt. Rhoddaf fy ysbryd ynoch, a byddwch fyw, ac fe'ch gosodaf yn eich gwlad eich hunain. Yna byddwch yn gwybod mai myfi Duw a lefarodd, ac mai myfi a'i gwnaeth, medd y Sanctaidd Un."

Yma y terfyn y Llith Gyntaf.

Translation

In those days: The hand of God came upon me, and he brought me out by the spirit of God and set me down in the middle of a valley; it was full of bones. He led me all round them; there were very many lying in the valley, and they were very dry. He said to me, "Mortal, can these bones live?" I answered, "O God, you know." Then he said to me, "Prophecy to these bones, and say to them: O dry bones, hear the word of God. Thus says God to these bones: I will cause breath to enter you, and you shall live. I will lay sinews on you, and will cause flesh to come upon you, and cover you with skin, and put breath in you, and you shall live; and you shall know that I am God." So I prophesied as I had been commanded; and as I prophesied, suddenly there was a noise, a rattling, and the bones came together, bone to its bone. I looked, and there were sinews on them, and flesh had come upon them, and skin had covered them; but there was no breath in them. Then he said to me, "Prophecy to the breath, prophecy, mortal, and say to the breath: Thus says God: Come from the four winds, O breath, and breathe upon these slain, that they may live." I prophesied as he commanded me, and the breath came into them, and they lived, and stood on their feet, a vast multitude. Then he said to me, "Mortal, these bones are the whole house of Israel. They say, 'Our bones are dried up, and our hope is lost; we are cut off completely.' Therefore prophecy, and say to

them, Thus says God: I am going to open your graves, and bring you up from your graves, O my people; and I will bring you back to the land of Israel. And you shall know that I am God, when I open your graves, and bring you up from your graves, O my people. I will put my spirit within you, and you shall live, and I will place you on your own soil; then you shall know that I, God, have spoken and will act, says the Holy One.”

Eseciel | Ezekiel 37:1-14

Codwn ar ein traed | We stand

Magnificat



My soul doth magnify the Lord. And my spirit hath rejoiced in God my Saviour. For he hath regarded the lowliness of his handmaiden; for behold, from henceforth, all generations shall call me blessed. For he that is mighty hath magnified me: and holy is his Name. And his mercy is on them that fear him: throughout all generations. He hath shewed strength with his arm; he hath scattered the proud in the imagination of their hearts. He hath put down the mighty from their seat, and hath exalted the humble and meek. He hath filled the hungry with good things, and the rich he hath sent empty away. He remembering his mercy hath holpen his servant Israel, as he promised to our forefathers, Abraham and his seed for ever. Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost, as it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen.

Cerddoriaeth | Music

Gwasanaeth Hwyrrol yn B leiaf | Evening Service in B minor,
Thomas Tertius Noble (1867-1953)

Eisteddwn | We sit

Here begins the eleventh chapter of the Gospel according to Saint John.

At that time: A certain man was ill, Lazarus of Bethany, the village of Mary and her sister Martha. Mary was the one who anointed Jesus with perfume and wiped his feet with her hair; her brother Lazarus was ill. So the sisters sent a message to Jesus, "Master, he whom you love is ill." But when Jesus heard it, he said, "This illness does not lead to death; rather it is for God's glory, so that the Son of God may be glorified through it." Accordingly, though Jesus loved Martha and her sister and Lazarus, after having heard that Lazarus was ill, he stayed two days longer in the place where he was. Then after this he said to the disciples, "Let us go to Judea again." The disciples said to him, "Rabbi, the Judeans were just now trying to stone you, and are you going there again?" Jesus answered, "Are there not twelve hours of daylight? Those who walk during the day do not stumble, because they see the light of this world. But those who walk at night stumble, because the light is not in them." After saying this, he told them, "Our friend Lazarus has fallen asleep, but I am going there to awaken him." The disciples said to him, "Master, if he has fallen asleep, he will be all right." Jesus, however, had been speaking about his death, but they thought that he was referring merely to sleep. Then Jesus told them plainly, "Lazarus is dead. For your sake I am glad I was not there, so that you may believe. But let us go to him." Thomas, who was called the Twin, said to his fellow-disciples, "Let us also go, that we may die with him." When Jesus arrived, he found that Lazarus had already been in the tomb for four days. Now Bethany was near Jerusalem, some two miles away, and many of the Jews had come to Martha and Mary to console them about their brother. When Martha heard that Jesus was coming, she went and met him, while Mary stayed at home. Martha said to Jesus, "Master, if you had been here, my brother would not have died. But even now I know that God will give you whatever you ask of him." Jesus said to her, "Your brother will rise again." Martha said to him, "I know that he will rise again in the resurrection on the last day." Jesus said to her, "I am the resurrection and the life. Those who believe in me, even though they die, will live, and everyone who lives and believes in me will never die. Do you believe this?" She said to

him, "Yes, Master, I believe that you are the Messiah, the Son of God, the one coming into the world." When she had said this, she went back and called her sister Mary, and told her privately, "The Teacher is here and is calling for you." And when she heard it, she got up quickly and went to him. Now Jesus had not yet come to the village, but was still at the place where Martha had met him. The Jews who were with her in the house, consoling her, saw Mary get up quickly and go out. They followed her because they thought that she was going to the tomb to weep there. When Mary came where Jesus was and saw him, she knelt at his feet and said to him, "Master, if you had been here, my brother would not have died." When Jesus saw her weeping, and the Jews who came with her also weeping, he was greatly disturbed in spirit and deeply moved. He said, "Where have you laid him?" They said to him, "Master, come and see." Jesus began to weep. So the Jews said, "See how he loved him!" But some of them said, "Could not he who opened the eyes of the blind man have kept this man from dying?" Then Jesus, again greatly disturbed, came to the tomb. It was a cave, and a stone was lying against it. Jesus said, "Take away the stone." Martha, the sister of the dead man, said to him, "Master, already there is a stench because he has been dead for four days." Jesus said to her, "Did I not tell you that if you believed, you would see the glory of God?" So they took away the stone. And Jesus looked upwards and said, "Father, I thank you for having heard me. I knew that you always hear me, but I have said this for the sake of the crowd standing here, so that they may believe that you sent me." When he had said this, he cried with a loud voice, "Lazarus, come out!" The dead man came out, his hands and feet bound with strips of cloth, and his face wrapped in a cloth. Jesus said to them, "Unbind him, and let him go." Many of the Jews therefore, who had come with Mary and had seen what Jesus did, believed in him.

Here ends the Second Lesson.

Ioan | John 11:1-45

Codwn ar ein traed | We stand

Nunc Dimittis



Lord, now lettest thou thy servant depart in peace according to thy word. For mine eyes have seen thy salvation, which thou hast prepared before the face of all people; to be a light to lighten the Gentiles and to be the glory of thy people Israel. Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost, as it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen.

Cerddoriaeth | Music
Gwasanaeth Hwylol yn B leiaf | Evening Service in B minor,
Thomas Tertius Noble (1867-1953)

Parhawn ar ein traed, a throi i wynebu'r Dwyrain | We stand, turning to face East

Credo'r Apostolion **Apostles' Creed**

I believe in God
the Father Almighty,
Maker of heaven and earth:
and in Jesus Christ his only Son our Lord,
who was conceived by the Holy Ghost,
born of the Virgin Mary,
suffered under Pontius Pilate,
was crucified, dead, and buried;
he descended into hell;
the third day he rose again from the dead,
he ascended into heaven,
and sitteth on the right hand of God the Father Almighty;
from thence he shall come to judge
the quick and the dead.
I believe in the Holy Ghost;
the holy catholic Church;
the communion of saints;
the forgiveness of sins;
✠ the Resurrection of the body,
and the Life everlasting.
Amen.

Parhawn ar ein traed, gan droi o'r Dwyrain | We stand, turning from the East

Gweddiau Prayers

Litani Leiaf Lesser Litany

The Lord be with you.
And with thy spirit.

Let us pray.

Penliniwn neu eisteddwn | We kneel or sit

Lord, have mercy upon us.
Christ, have mercy upon us.
Lord, have mercy upon us.

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy Enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

Translation

Our Father, who art in heaven, hallowed be thy Name, thy kingdom come, thy will be done, in earth as it is in heaven. Give us this day our daily bread; and forgive us our trespasses, as we forgive those who trespass against us; and lead us not into temptation, but deliver us from evil. Amen.

O Lord, shew thy mercy upon us;
And grant us thy salvation.

O Lord, save the King;
And mercifully hear us when we call upon thee.

Endue thy ministers with righteousness;
And make thy chosen people joyful.

O Lord, save thy people;
And bless thine inheritance.

Give peace in our time, O Lord;
Because there is none other that fighteth for us,
but only thou, O God.

O God, make clean our hearts within us;
And take not thy Holy Spirit from us.

Gweddïau Casgl Collects

ODduw, a ddatguddiaist fawredd dy unig-anedig Fab ar y mynydd sanctaidd cyn ei Ddiodeffaint: dyro i ni dy weision gael canfod ei ogoniant a'n nerthu i ddwyn ei groes; trwy'r un Iesu Grist ein Gwardwr. Amen.

OGod, from whom all holy desires, all good counsels, and all just works do proceed; give unto thy servants that peace which the world cannot give; that our hearts may be set to obey thy commandments, and also that by thee, we, being defended from the fear of our enemies, may pass our time in rest and quietness; through the merits of Jesus Christ our Saviour. Amen.

Lighten our darkness, we beseech thee, O Lord; and by thy great mercy defend us from all perils and dangers of this night; for the love of thy only Son, our Saviour, Jesus Christ. Amen.

Translation

God, who before the Passion of your only-begotten Son did reveal his majesty on the holy mount: grant that we your servants may see his glory and be strengthened to bear the cross; through the same Jesus Christ our Saviour. Amen.

Cerddoriaeth | Music

Thomas Ebdon (1738-1811)

Gweddi Waddol **Foundation Prayer**

Deiniol, dad a tharddiad, a godaist fangor fawr yn gysgod a noddfa, a'th godwyd â'th fagl i fugeilio Gwynedd Maelgwn gynt; cwyd i'r uchelfannau weddïau aelwyd d'olynydd yn y fangre hon, fel y cyfyd gwawrddydd ffydd, gobaith a chariad yn ein calonnau'n fythol.

Amen.

Translation

O Deiniol, our forebear and founder, who raised a great bangor for shelter and sanctuary, and who was raised with your crozier to shepherd Maelgwn's Gwynedd in those ancient days: raise to the heavenly courts the prayers of your successor's household in this sacred place, that our hearts may awaken to faith, hope and love eternally. Amen.

Eisteddwn | We sit

Anthem

Christus factus est pro nobis obediens usque ad mortem, mortem autem crucis. Propter quod et Deus exaltavit illum et dedit illi nomen, quod est super omne nomen.

Cyfieithiad

Crist gan fod yn ufudd drosom hyd angau, ie, angau ar groes. Am hynny tra-dyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw.

Translation

Christ became obedient for us to the point of death – even death on a cross. Therefore God also highly exalted him and gave him the name that is above every name.

Geiriau | Words

Philippiaid | Philippians 2:8-9

Cerddoriaeth | Music

Anton Bruckner (1824-1896)

Penliniwn neu eisteddwn | We kneel or sit

Gweddïau Prayers

Ceir gweddïau | Prayers are said

Ar derfyn y gweddïau | The prayers conclude

Rhagflaena ni, O Dduw, â'th ragorol ras, a hyrwydda ni â'th barhaus gymorth, fel, yn ein holl weithredoedd o'u cychwyn i'w cwblhau ynot ti, y gogoneddwn dy Enw sanctaidd, a chael o'r diwedd, gan dy drugaredd, lawnder bywyd; trwy Iesu Grist ein Gwaredwr.

Amen.

Translation

Go before us, O God, with thy most gracious favour, and further us with thy continual help; that in all our works, begun, continued, and ended in thee, we may glorify thy holy Name, and finally by thy mercy obtain the fullness of life; through Jesus Christ our Saviour. Amen.

**The ✠ grace of our Lord Jesus Christ,
and the love of God,
and the fellowship of the Holy Ghost,
be with us all evermore.**

Amen.

Codwn ar ein traed | We stand

Ymadael Departing

Emyn Hymn



When human voices cannot sing
and human hearts are breaking,
we bring our grief to you, O God,
who knows our inner aching.

Set free our spirits from all fear —
the cloud of dark unknowing,
and let the light, the Christ-light show
the pathway of our going.

Make real for us your holding love,
the love which is your meaning,
the power to move the stone of death,
the hope of Easter morning.

Geiriau | Words

Shirley Erena Murray (1931-2020)

Cerddoriaeth | Music | "Jacob's Well"

Barry Rose

Parhawn ar ein traed | We remain standing

Bendith Blessing

Bydded i'r Crist croeshoeliedig eich tynnu ato ef ei hun, sy'n sylfaen ddiogel ffydd, yn gynhaliwr cadarn gobaith ac yn sicrwydd maddeuant pechodau; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Translation

Christ crucified draw you to himself, the sure ground of faith, the firm support for hope and the assurance of sins forgiven; and the blessing of God almighty, the Father, ✠ the Son, and the Holy Spirit, be among you and remain with you always. Amen.

Gollyngiad **Dismissal**

Y Duw a fo gyda chwi.

R A'th gadw di yng nghariad Crist.

Y Bendithiwn yr lôr.

R Diolch a fo i Dduw.

Translation

Y *The Lord be with you.* R *And with thy spirit.*

Y *Let us bless the Lord.* R *Thanks be to God.*

Cerddoriaeth | Music

Edward Woodall Naylor (1867-1934)

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael | We remain standing until the ministers have departed

Offrymddarn ar yr organ | Organ voluntary

Elegie, Flor Peeters (1903-1986)

Oddi wrth yr Is-Ddeon



Ysgrifenna Canon Siôn Rhys Evans:

Yr Wythnos Fawr

Safwn ar drothwy yr Wythnos Fawr. Mae ein defodau yn ddirifol ac o sylwedd, ac yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd i ni ymdrochi yn nrama Dioddefaint ac Atgyfodiad Crist, wedi'u gwneud a'u cyflawni er ein hiachawdwriaeth. Gadewch imi eich annog i rannu newyddion am ein defodau gyda'ch ffrindiau a'ch cymdogion, ac i fod yn ffyddlon yn eich presenoldeb yn ystod yr Wythnos Fawr.

Hoffwn dynnu'ch sylw i rhai uchafbwyntiau.

Johannes-Passion

Ar Sul y Blodau, mae ein cerddorion yn perfformio *Johannes-Passion* J. S. Bach (*Dioddefaint Sant Ioan*), i gyfeiliant grymoedd offerynnol Ensemble 525, ac wedi'u hategu gan leisiau Corws Prifysgol Bangor.

Malcolm Guite

Ein pregethwr yn y Cymun Bendigaid ar Gân a Bendithiad y Sagrafen Fendigaid ar y Llun, y Mawrth a'r Mercher Glân am 6.00pm yw'r Parchg Ddr Malcolm Guite. Mae Malcolm Guite wedi disgrifio'i hun fel "bardd, offeiriad, roc a rholer, ym mha bynnag drefn y mynnwch." Bu'n ddiweddar yn Gaplan Coleg Girton, Caergrawnt, a dilynodd Ronald Blythe fel un o golofnwyr wythnosol

y *Church Times*. Am ei gerddi, a glywn yn ystod yr Wythnos Fawr, ebe Rowan Williams, cyn Archesgob Cymru, fod iddynt "gynildeb a grym pob soned dda, gan dro ar ôl tro gynnig i'r darlennydd roddion dwfn er mwyn gweddïo a myfyrio." Mae ei lyfr diweddaraf, *Lifting the Veil: Imagination and the Kingdom of God*, yn amddiffyniad egnïol o'r dychymyg creadigol fel "cynneddf sy'n dwyn y gwirionedd."

Saith Air y Groes

I ganol tawelwch Dydd Gwener y Groglith, byddwn yn offrymu'r perfformiad cyntaf yn y byd o *Saith Air y Groes* gan y cyfansoddwr, Alex Mills – gosodiad corawl o eiriau olaf Crist o'r Groes, wedi'i wreiddio yn iaith a diwylliant Gogledd Orllewin Cymru, ac wedi'i gomisyntu ar gyfer yr Wythnos Fawr gan y Gadeirlan. Bydd y gair mawr, tyngedfennol hwnnw, "Gorffenyd," yn atseinio.

Clochau

Yn ystod y wythnos y Dioddefaint a'r Wythnos Fawr, mae'r croesau a'r cerfluniau defosiynol yn y Gadeirlan wedi'u gorchuddio â chochlau phorffor. Mae'r croesau dal gochl fel bod dadorchuddio'r Groes yn ystod litwrgi Gwener y Groglith am 2.00pm yn foment o'i hadnabod â grym newydd ac ofnadwy. Mae'r cerfluniau dan gochl fel rhan o gwtogi ein defosiynoldeb coeth arferol i ganolbwyntio ar y Dioddefaint a thaith Crist i'r Groes. Rwy'n

ddiolchgar i Canon Tracy Jones am
wnïo cochlau newydd ar ein cyfer
eleni.

Dodrefn newydd yng Nghorff yr Eglwys

Heddiw yw'r dydd Sul olaf y
disgwyliwn fod yn defnyddio ein celfi
presennol. Os aiff popeth yn iawn
gyda gwagio a derbyn yn ystod yr
wythnos i ddod, bydd ein dodrefn
newydd yn eu lle erbyn Sul y Blodau.
Os nad ydych wedi gwneud hynny
eisoes, mynnwch gopi o'r llyfryn sy'n
cyflwyno'r dodrefn newydd. Rwy'n
ymwybodol y bydd y celfi newydd,
er eu bod wedi'u dylunio i ategu'r
bensaernïaeth ac i gyfoethogi ein
haddoliad, yn newid sylweddol i'r
Gadeirlan, a bydd yn cymryd ychydig
o amser inni adnabod ein gilydd,
fel petai. Bydd cerdded i mewn i'n
haddoliad y Sul nesaf yn brofiad
sydd wedi newid ychydig - ni fydd
ein mannau cyfarwydd yno yn yr un
ffordd ac o'r blaen. Dyma wahoddiad
gennyf felly inni fod yn addfwyn a
gofalus gyda'n gilydd a gyda'n hunain
wrth i ni ganfod profiadau newydd yn
y Gadeirlan dros yr wythnosau nesaf.

Curad newydd

Mae'n bleser gen i rannu'r newyddion bod yr Archesgob a'r Esgob wedi penodi Curad newydd i ymuno â'n tîm gweinidogaeth yn y Gadeirlan a Bro Deiniol. Mae Josie Godfrey ar hyn o bryd yn cwblhau ei hastudiaethau yn Saint Stephen's House yn Rhydychen, a bydd yn cael ei hordeinio yma ar 1 Gorffennaf am 11.00am, cyn dechrau ar ei churadiaeth tair blynedd. Mae'n bleser a hefyd yn gyfrifoldeb cael Curad yn rhan o'n bywyd yma ym Mangor. Gwn y byddwn am groesawu Josie'n gynnes, ac y bidden yn elwa ar ei brwdfrydedd a'i grasusrwydd wrth iddi hithau yn ei thro achub ar y cyfle i dyfu ac aeddfedu yn ei gweinidogaeth ordeiniedig yn ein plith.

Wrth ysgrifennu amdani ei hun, dywed Josie:

Rwy'n gyffrous iawn i fod yn ymuno ag Ardal Weinidogaeth Bro Deiniol fel Curad.

Cefais fy magu ger High Wycombe, ac yna symudais i Lundain i astudio Cerddoriaeth yn King's College London. Wrth archwilio galwad i ordeiniad, bûm yn gweithio fel cynorthwydd bugeiliol yn Christ Church, Isle of Dogs yn Nwyrain Llundain, ac yna symudais i Rydychen i ddechrau hyfforddi yn Saint Stephen's House. Yn fy amser hamdden rwy'n mwynhau canu clychau, cerdded, a cherddoriaeth - yn enwedig theatr gerdd.

Dw i'n nerfus ac yn gyffrous am ddysgu Cymraeg; mae fy nheulu yn wreiddiol o

Abertawe ond, er fy mod wedi treulio llawer o wyliau yno, nid wyf erioed wedi byw yng Nghymru fy hun, felly rwy'n edrych ymlaen at ddychwelyd i "wlad fy nhadau"!

Rwy'n ddiolchgar i Canon Tracy Jones am gytuno i arwain yr arolygiaeth o'n Curad newydd, ac i Canon David Morris, ein Cyfarwyddwr Gweinidogaeth esgobaethol, am ei holl waith y tu ôl i'r llen i baratoir' ffordd.



Yr wythnos

Heddiw | Today

3.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Ebdon;
Evening Service in B minor, Noble;
Christus factus est, Bruckner; Elegie,
Peeters

Dydd Llun | Monday

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Mawrth | Tuesday

9.00pm Camau Bach

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Mercher | Wednesday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Iau | Thursday

11.15am Datganiad | Recital

12.30pm Cymun | Eucharist

2.00pm | **Eglwys y Groes** Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Gwener | Friday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Sadwrn | Saturday

12.30pm Cymun | Eucharist

2 Ebrill | Sul y Blodau

2 April | Palm Sunday

8.15am Holy Eucharist

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân a Gorymdaith y Palmwydd

Missa brevis Sancti Joannis de Deo, Haydn; Hosanna i Fab Dafydd, Victoria; Ymdeithgan ar "Lift up your heads" gan Handel, Guilmant

11.00am Choral Holy Eucharist with the Procession of Palms

Missa Aedis Christi, Mathias; Hosanna to the Son of David, Weelkes; Valet will ich dir geben, BWV 736, Bach

6.00pm Johannes-Passion

Dioddefaint Sant Ioan | Saint John Passion, Bach

Ein gweddi

Ein cymuned Y gwaith o osod y dodrefn newydd yng Nghorff yr Eglwys

Ein hesgobaeth Ein Hesgob Cynorthwyol

Yn glâf Joy Levine, offeiriad; Trefor Roberts; John Watkin Jones; Sacha Cook; Kathleen; Caitriona Carroll; Giuseppina de Rosa; David Silcok

A fu farw'n ddiweddar William Huw Hughes; Angela Warren; Shirley Egerton; Helen Martinez; Justin Adams

Gŵyl goffa Norman McDermid (29); Saunders Davies, esgob (30); Tommy Jordon (1)

From the Sub-Dean



Canon Siôn Rhys Evans writes:

Holy Week

We stand on the threshold of Holy Week. Our observances are serious and substantial, and offer us a wealth of opportunities to enter into the drama of Christ's Passion and Resurrection, wrought and achieved for our salvation. Let me urge you to share news of our observances with your friends and neighbours, and to be faithful in your attendance during Holy Week.

Let me draw your attention to some particular highlights.

Johannes-Passion

On Palm Sunday, our musicians will perform J. S. Bach's *Johannes-Passion* (*Saint John Passion*), accompanied by the instrumental forces of Ensemble 525, and augmented by the voices of the Bangor University Chorus.

Malcolm Guite

Our preacher at the Choral Holy Eucharist and Benediction of the Blessed Sacrament on Holy Monday, Holy Tuesday and Holy Wednesday at 6.00pm is the Revd Dr Malcolm Guite. Malcolm Guite has described himself as "poet, priest, rock & roller, in any order you like." He was latterly Chaplain of Girton College, Cambridge, and succeeded Ronald Blythe as the writer of a weekly column in the *Church Times*. Of his

sonnets, which will form part of our liturgies during Holy Week, Rowan Williams, sometime Archbishop of Wales, wrote that they "have the economy and pungency of all good sonnets, and again and again, offer deep resources for prayer and meditation to the reader." His most recent book, *Lifting the Veil: Imagination and the Kingdom of God*, is a vigorous defence of the artistic imagination as a "truth-bearing faculty."

Saith Air y Groes

Into the silence of Good Friday, we offer the world premiere of Alex Mills's *Saith Air y Groes* – a choral setting of the Seven Last Words from the Cross, grounded in the language and culture of North-West Wales, and commissioned by the Cathedral for this Holy Week. "Gorffennwyd – it is finished," will resound.

Veils

During Passiontide and Holy Week, the crosses and devotional statues at the Cathedral are veiled in purple. The crosses are veiled so that the unveiling of the Cross during the Good Friday liturgy at 2.00pm is a moment of new and awful encounter for us. The statues are veiled as part of the pairing down of our usual rich devotion to a focus on the Passion and Christ's journey to the Cross. I'm grateful to Canon Tracy Jones for making new veils for us this year.

New Nave furniture

Today is the last Sunday at which we expect to be using our current Nave furniture. If all goes well with removals and deliveries in the course of the week ahead, our new furniture will be in place by Palm Sunday. If you haven't already done so, do pick up a copy of the booklet that introduces the new furniture. I'm conscious that the new furniture, though designed to complement the architecture and to enhance our worship, will constitute a significant change to the Cathedral, and it will take us a little while to grow into it. Walking into worship next Sunday will be a slightly altered experience - our familiar places will not be there in quite the same way. This is therefore an invitation from me to be gentle with one another and with ourselves as we encounter new experiences in the Cathedral over the weeks ahead.



A new Curate

I'm delighted to share the news that the Archbishop and Bishop have appointed a new Curate to join our ministry team at the Cathedral and Bro Deiniol. Josie Godfrey is currently completing her studies at Saint Stephen's House in Oxford, and will be ordained here on 1 July at 11.00am, before beginning her three-year curacy. It is a delight and also a responsibility to have a Curate as part of our life here in Bangor. I know that we will want to welcome Josie warmly, and to benefit from her enthusiasm and grace as she is also allowed time and space to learn and grow into our ordained ministry in our midst.

Writing of herself, Josie says:

I'm very excited to be joining the Bro Deiniol Ministry Area as Assistant Curate.

I grew up near High Wycombe, and then moved to London to study Music at King's College London. Whilst exploring a call to ordination, I worked as a pastoral assistant at Christ Church, Isle of Dogs in East London, and then moved to Oxford to begin training at St Stephen's House. In my spare time I enjoy bell ringing, walking, and music - particularly musical theatre.

I'm both nervous and excited about learning Welsh; my family are originally from Swansea but, although I have spent many holidays there, I have never lived in Wales myself, so I am looking forward to returning to "the land of my fathers"!

I'm grateful to Canon Tracy Jones for agreeing to have primary oversight for our new Curate, and to Canon David Morris, as our Diocesan Director of Ministry, for all his work behind the scenes to prepare the way.



This week

Heddiw | Today

3.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Ebdon;
Evening Service in B minor, Noble;
Christus factus est, Bruckner; Elegie,
Peeters

Dydd Llun | Monday

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Mawrth | Tuesday

9.00pm Camau Bach

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Mercher | Wednesday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Iau | Thursday

11.15am Datganiad | Recital

12.30pm Cymun | Eucharist

2.00pm | **Eglwys y Groes** Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Gwener | Friday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Sadwrn | Saturday

12.30pm Cymun | Eucharist

2 Ebrill | Sul y Blodau

2 April | Palm Sunday

8.15am Holy Eucharist

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân a Gorymdaith y Palmwydd

Missa brevis Sancti Joannis de Deo, Haydn; Hosanna i Fab Dafydd, Victoria; Ymdeithgan ar "Lift up your heads" gan Handel, Guilfant

11.00am Choral Holy Eucharist with the Procession of Palms

Missa Aedis Christi, Mathias; Hosanna to the Son of David, Weelkes; Valet will ich dir geben, BWV 736, Bach

6.00pm Johannes-Passion

Dioddefaint Sant Ioan | Saint John Passion, Bach

Our prayers


Our community The arrival of our new Nave furniture

Our diocese Those preparing for Ordination this Petertide

The sick Joy Levine, priest; Trefor Roberts; John Watkin Jones; Sacha Cook; Kathleen; Caitriona Carroll; Giuseppina de Rosa; David Silcock

The recently departed William Huw Hughes; Angela Warren; Shirley Egerton; Helen Martinez; Justin Adams

Year's mind Norman McDermid (29); Saunders Davies, bishop (30); Tommy Jordon (1)



Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor

Rhif elusen 1158340

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copiâu print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Daw'r drefn a'i chynnwys o **Llyfr Gweddi Gyffredin (1662)**. Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**.

Mae delwedd y clawr yn ystod tymor of Gesimáu a'r Grawys yn ffotograffau gan y ffotograffydd lleol ac un o gyfeillion y Gadeirlan, Dave Custance.

The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Charity number 1158340

Safeguarding

Safeguarding children and adults at risk is vital, and we are committed to fostering an environment where everyone is able to worship and participate in the life of Saint Deiniol's Cathedral in safety. If you have any concerns, please raise them immediately with a member of the Cathedral team.

Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Large print copies of this booklet are available from the stewards.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the stewards.

Sustainability and permissions

We use 100% recycled, low carbon dioxide paper.

Many of our services are streamed on Facebook, and the recording made available thereafter on the Cathedral's Facebook page. An official photographer may be on duty. Your attendance constitutes your consent to be included in any filming, photographing, audio recording or broadcast. If you do not wish a photograph of you or a child in your care to be used by the Cathedral, please speak to a member of the Cathedral team.

Acknowledgements

Material in this order of service is reproduced under the CLL 280874. The form and content of the service are taken from **The Book of Common Prayer (1662)**. The lessons are based on **The New Revised Standard Version of the Bible** and **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**.

Our cover images during Gesimatide and Lent are photographs taken by the local photographer and friend of the Cathedral, Dave Custance.